Cofnodion o Gyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu nos Iau Medi 5ed am 7.30

Yn Bresennol – cyfarfod llawn

Jane Taylor Williams, Eirwyn Thomas, Annwen Hughes, Nia Jones, Helen Johns, Robin Ward, John Evans, Kevin Titley

Ar Zoom – Luise Vassey, Gwynfor Owen.

Cyfieuthu ar y pryd - Arfon Hughes

Ymddiheuriadau eto gwasanaeth zoom ddim yn gweithio yn ddigonol. Cyfarpar microphone yn y Neuadd ddim digon cryf, ac aeth y wi fi I ffwrdd yn ystod y cyfarfod hefyd.

Gair o groeso gan y Cadeirydd Jane Taylor Williams ac yn croesawu pawb I'r cyfarfod, gan estyn croeso arbennig I swyddogion – Hwyluswyr Tai Gwledig

Tai Teg a Cynefin – cafwyd anerchiad gan Heledd Parry (Cynefin) a Catrin Roberts (Rheolwr Grwp Cynefin) – yn siarad am y prosiect sydd yn cynnwys 9 o bartneriaid gwahanol . Hwylusydd tai gwledig . Cysylltu pobl gyda cyfleon tai yn yr ardal. Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi comisiynnu proses o ymgynghori yn lleol – Llanbedr a Pentre Gwynfryn. Ni d oes tir wedi ei neilltuo ar hyn o bryd.

1.Gyda'r pwrpas o edrych ar y Cynllun Datblygu lleol.

2. Cyswllt cyntaf gyda'r Cyngor Cymuned.

3. Yna cysylltu gyda trigolion lleol.

4. Gwahoddiad I holiadur ar lein. Neu galwad ffon.

5. Diwrnod agored.

Angen casglu gwybodaeth am yr angen lleol am dai fforddiadwy, tai ar rent fydda rhain.  Fel yn Harlech a Phenrhyndeudraeth.

Gwybodaeth – cyflogaeth, costa prynu tai yn lleol.  Hynny yw cyfartaledd pris ar y farchnad agored.  Tai Teg.  Oherwydd diogelwch data dim ond yn gallu cyhoeddi crynodeb o hyn ar y diwedd.  Beth yw sefyllfa dai yn yr ardal?

Beth yw sefyllfa ceisiadau cynllunio yn y gorffennol?

Casglu data am dai sydd yn wag ers rai blynyddoedd.

Cofrestr enwau ar dai cymdeithasol yn yr ardal.

Rhestr ail gartrefi a tai gosod gwyliau.

Beth yw'r angen yn lleol?  Oes angen lleol?

Adrodd ar data amod 106 – sut mae hyn yn amharu ar y cynllun, a faint os o gwbwl o dai gyda'r amod yma sydd wedi ei ruddhau. (Hyn yn amharu ar brisiau tai yn yr ardal).

Nododd Catrin Roberts bod Tai Teg wedi gallu helpu 13 o deuluoedd.

Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo I gefnogi yn arianol £800,000 drwy gynllun hunan adeiladu ar lain o dir.

JTW – yn holi faint yw graddfa unrhyw ddatblygiad.

Ateb – Penrhyndeudraeth – 40 o dai, Harlech 19.

KT – sut mae diffinio pobl leol ?

CR – rhai a chyswllt a'r ardal ers blwyddyn.

Byddent yn cysylltu gyda'r Clerc a hefyd anfon gwybodaeth er mwyn cael rhoi ar fb a tudalen we y Cyngor.

Diolchwyd I'r ddwy am eu hamser a'u cyflwyniad

Tud 3.

Ymlaen gyda materion y Cyngor – gan ddilyn yr agenda.

3. Datgan buddiant – dim

6. Derbyn Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'u cymeradwyuo.

7. Adroddiad Cyllid – cafwyd adroddiad cyllid llawn. Gyrrwyd drwy e bost y daenlen.

Nododd y Cler bod peth dryswch gyda taliadau anfonebau gan Cyllid Archwiliad Cymru. Aros cyn talu dim byd ychwaneg iddynt.

Nodwyd yn y banc diwedd Awst ydoedd £20220.26

(Hyn ddim yn cynnwys y precept I ddiwedd Awst)

Arian wedi mynd allan yn ystod y mis oedd –

Taliadau

£40.00 Delyth Williams tudalen we.

£200 Torri fynwent Will Hooban

£205 Torri gwair cae chwarae

£5.00 Charges Banc (hwn yn y datganiad nanc ond ddimyn gynnwysiedig yn y daenlen)

£10.00 ar gyfer rhent Neuadd

Angen rhyddhau y symiau isod a'u cymeradwyuo –

£500 rhodd Ysgol Feithrin

Adroddiad mewnol – angen gneud hyn a'u roi ar y wefan.

Rhyddhau arian a neilltuwyd ar gyfer y Neuadd mae yn y gyllideb o £1500

Ond bydd peth taliadau angen eu gneud – wal derfyn rhwng y maes parcio ar Ysgol.  Drws tan ar gyfery Neuadd.  Posibilrwydd I'r Cyngor Cymuned dalu rhain yn lle y rhodd?

Tud 4.

8. Materion yn Codi

a)  Cyfieuthu – angen edrych ar hwn eto.  Colli cyswllt we.  Mae angen I bawb gysylltu gyda band eang ffibr optig, ac arwyddo ar gyfer cyflenwr yn yr ardal.

b) Gwaith clirio – y fynwent

Pasiwyd I'r Clerc gysylltu gyda'r cwmni insurans I weld beth yw'r oblygiadau gyda gwirfoddolwyr ar gyfer hyn.

Bod angen cael pris gan gwmni I wneud y Gwaith o dorri y gwrych. Ac wedyn holi am ganiatad gan berchnogion Ardudwy – sydd ar y terfyn.

c) Gwaith G.L.Jones ar offer cae chwarae – wedi derbyn ymateb. Mae'r pris wedi codi tua £100 ar gyfer gwneud y wet pour a paentio .  Pasiwyd I gymeradwyuo hyn. Cost o £2076.00 I gyd.

d) Llwybrau – yn anffodus dim ond un llwybr sydd wedi ei dorri eleni.  Neb am gynnig tendro am y Gwaith.

e) Neuadd Gymdeithasol – wal derfyn – neb wedi tendro am y Gwaith er gofyn I 4. Drws tan mae hwn ar archeb. Man hole wedi ei godi a wedi ail wneud, rhodd mewn ewyllys y diweddar Jamie Gaskell – gohebiaeth parthed hyn, a'I ddymuniad oedd rhoi £3000 tuag at y Neuadd.  .

f) HAL – yn dal I ddisgwyl cyfraniad gan Cyngor Harlech a Llanfair.

Maent yn gwerthu asedau o'r caffi ac o'r wal ddringo.

g) Cyfarfod Cynghorau Ardudwy – Bod 2 aelod o'r Pwyllgor wedi rhyddhau datganiad parthed y swm mae'r 4 Cyngor sydd ddim yn cyfrannu mwyach wedi rhoi ers y cychwyn, a mae 5 mlynedd oedd hyd y gontract I fod.

Nodwyd bod rhaid cael cyfansoddiad.

Tud 5.

Dim ond Cynghorwyr sydd yn cael mynychu. 2 o bob Cyngor, a bydd Cynghorwyr Llanfair a Harlech yn cael gwahoddiad hefyd.

Trefnu Cyfarfod arall Mis Tachwedd – nos fercher 13 . am 7.30

h) Datblygiadau Ffordd Osgoi – bydd y cysgodfannau yn cael eu gosod ym mis Medi.

i) Adroddiadau Cynghorwyr Sir

Gwynfor Owen – (erbyn hyn wedi gadael y cyfarfod oherwydd diffy gyn y zoom)

Nodi 2 beth o bryder

1. Toriadau Cyngor Gwynedd I'r dyfodol
2. Ken Skates – dal yn ei swydd ar hyn o bryd! Ond dim sicrwydd I'r dyfodol, ac felly ansicrwydd gyda ffordd Llanbedr.

Annwen Hughes –

1. Toiledau dynion wedi eu fandaleiddio unwaith yn rhagor. Mae hi wedi cysylltu gyda Bryn Hughes adran Cyngor Gwynedd am hyn.
2. Trefnu I dim tacluso Gwynedd ymweld a Llanbedr unwaith eto.
3. Traffic jams drwy'r haf.

4. Tyllau yn y ffordd – nododd Eth ei fod yn cysidro llenwi y tyllau ar Rhiw Garth Goch.  Ond tydi hynny ddim yn iawn.
5. I'r Clerc hysbysu Cyngor Gwynedd eto o hyn.
6. Ceir yn parcio ar y llinellau dwbwl melyn.  Wedi cyfeirio y mater at Elliw PCO ar gyfer ei fonitoro.
7. Bydd angen trefniadau mewn llaw ar gyfer Sul y Cofio.

Tud 6.

Unrhyw Faterion Eraill

1. E bost gan I.Jones yn holi am bosibilrwydd gael agoriad Swyddogol ar gyfer Maes Parcio a Llwybr Hafod y Bryn.  Gwaith a wnaethpwyd ar y cyd rhwng Parc Cenedlaethol, a Gwirfoddolwyr Coedlannau.  Nid oedd yna unrhyw frwdfrydedd parthed hyn..
2. RW – yn holi eto parthed yr angen am fesurydd swm y traffic drwy'r Pentref a hefyd llain cyflymder.  Pasiwyd bod y Clerc yn anfon at Llinos Angharad er mwyn cael unrhyw ddiweddarid.
3. KT – bod dathliad 50 mlynedd ers Huchenfeld.

Hefyd bod David Richards yn awyddus I gael darllen enwau y rhai a gollwyd yn y Rhyfeloedd ar Sul y Cofio eleni.  Hefyd yn gofyn a fydda modd ychwanegu enwau y 7 criw awyren RAF a gollwyd dros Moel Ddu ar y 6ed o Chwefror 1945.

Pasiwyd I wneud hyn.  A gofyn I Colin Jones hefyd gymerud rhan.

4. JE – Bod scaffoldiau ger Plas Newydd hefyd wedi bod yn rhwystr ar gyfer symudiad yn y traffic yn ddiweddar.
5. JE – Angen cysylltu gyda TFW – nos sadwrn 31 o Awst tren ola – 3 cerbyd tren, a 2 ohonynt wedi cau.  Neb yn talu.

k) Cais Cynllunio – NP5?62/439A

Ystafell haul Erw Fair

Bod y Cyngor yn cefnogi y datblygiad yma, ar gyfer person lleol sydd mewn cadair olwyn, ac angen byw yn lleol yn agos at ei deulu.